

BRO DWYNWEN 18/05/2025
Pumed Sul y Pasg
Fifth Sunday of Easter

Colect 69

Hollalluog Dduw, a orchfygaist angau trwy dy uniganedig Fab ac a agoraist i ni borth y bywyd tragwyddol: bydded i'th ras ein rhagflaenu a dyro ddeisyfiadau da yn ein meddyliau fel y gallwn, trwy dy gymorth parhaus di, eu dwyn i berffeithrwydd cyflawn; trwy Iesu Grist ein Harglwydd atgyfodedig, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 69

Almighty God, who through your only-begotten Son Jesus Christ have overcome death and opened to us the gate of everlasting life: grant that, as by your grace going before us you put into our minds good desires, so by your continual help we may bring them to good effect; through Jesus Christ our risen Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Genesis 22. 1-18

Wedi'r pethau hyn, rhoddodd Duw brawf ar Abraham. "Abraham," meddai wrtho, ac atebodd yntau, "Dyma fi." Yna dywedodd, "Cymer dy fab, dy unig fab Isaac, sy'n annwyl gennyf, a dos i wlad Moreia, ac offryma ef yno yn boethoffrwm ar y mynydd a ddangosaf iti." Felly cododd Abraham yn fore, cyfrwyodd ei asyn, a chymryd dau lanc gydag ef, a'i fab Isaac; a holltodd goed i'r poethoffrwm, a chychwynnodd i'r lle y dywedodd Duw wrtho. Ar y trydydd dydd cododd Abraham ei olwg, a gwelodd y lle o hirbell. Yna dywedodd Abraham wrth ei lanciau, "Arhoswch chwi yma gyda'r asyn; mi af finnau a'r bachgen draw ac addoli, ac yna dychwelwn atoch." Cymerodd goed y poethoffrwm a'u gosod ar ei fab Isaac; a chymerodd y tân a'r gyllell yn ei law ei hun. Ac felly yr aethant ill dau ynghyd. Yna dywedodd Isaac wrth ei dad Abraham, "Fy nhad." Atebodd yntau, "Ie, fy mab?" Ac meddai Isaac, "Dyma'r tân a'r coed; ond ble mae oen y poethoffrwm?" Dywedodd Abraham, "Duw ei hun fydd yn darparu oen y poethoffrwm, fy mab." Ac felly aethant ill dau gyda'i gilydd. Wedi iddynt gyrraedd i'r lle'r oedd Duw wedi dweud wrtho, adeiladodd Abraham allor, trefnodd y coed, a rhwymodd ei fab Isaac a'i osod ar yr allor, ar ben y coed. Yna estynnodd Abraham ei law, a chymryd y gyllell i ladd ei fab. Ond galwodd angel yr ARGLWYDD arno o'r nef, a dweud, "Abraham! Abraham!" Dywedodd yntau, "Dyma fi." A dywedodd, "Paid â gosod dy law ar y bachgen, na gwneud dim iddo; oherwydd gwn yn awr dy fod yn ofni Duw, gan nad wyt wedi gwrthod rhoi dy fab, dy unig fab, i mi."

Cododd Abraham ei olwg ac edrych, a dyna lle'r oedd hwrdd y tu ôl iddo wedi ei ddal gerfydd ei gyrn mewn drysni; aeth Abraham a chymryd yr hwrdd a'i offrymu yn boethoffrwm yn lle ei fab. Ac enwodd Abraham y lle hwnnw, "Yr ARGLWYDD sy'n darparu"; fel y dywedir hyd heddiw, "Ar fynydd yr ARGLWYDD fe ddarperir." Galwodd angel yr ARGLWYDD eilwaith o'r nef ar Abraham, a dweud, "Tyngais i mi fy hun," medd yr ARGLWYDD, "oherwydd iti wneud hyn, heb wrthod rhoi dy fab, dy unig fab, bendithiaf di yn fawr, ac amlhau dy ddisgynyddion yn ddirfawr, fel sêr y nefoedd ac fel y tywod ar lan y môr. Bydd dy ddisgynyddion yn meddiannu pyrth eu gelynion, a thrwyddynt bendithir holl genhedloedd y ddaear, am iti ufuddhau i'm llais."



Copyright © Sermons4Kids | All Rights Reserved | www.sermons4kids.com

Genesis 22. 1-18

After these things God tested Abraham. He said to him, 'Abraham!' And he said, 'Here I am.' He said, 'Take your son, your only son Isaac, whom you love, and go to the land of Moriah, and offer him there as a burnt-offering on one of the mountains that I shall show you.' So Abraham rose early in the morning, saddled his donkey, and took two of his young men with him, and his son Isaac; he cut the wood for the burnt-offering, and set out and went to the place in the distance that God had shown him. On the third day Abraham looked up and saw the place far away. Then Abraham said to his young men,

'Stay here with the donkey; the boy and I will go over there; we will worship, and then we will come back to you.' Abraham took the wood of the burnt-offering and laid it on his son Isaac, and he himself carried the fire and the knife. So the two of them walked on together. Isaac said to his father Abraham, 'Father!' And he said, 'Here I am, my son.' He said, 'The fire and the wood are here, but where is the lamb for a burnt-offering?' Abraham said, 'God himself will provide the lamb for a burnt-offering, my son.' So the two of them walked on together.

When they came to the place that God had shown him, Abraham built an altar there and laid the wood in order. He bound his son Isaac, and laid him on the altar, on top of the wood. Then Abraham reached out his hand and took the knife to kill his son. But the angel of the Lord called to him from heaven, and said, 'Abraham, Abraham!' And he said, 'Here I am.' He said, 'Do not lay your hand on the boy or do anything to him; for now I know that you fear God, since you have not withheld your son, your only son, from me.' And Abraham looked up and saw a ram, caught in a thicket by its horns. Abraham went and took the ram and offered it up as a burnt-offering instead of his son. So Abraham called that place 'The Lord will provide'; as it is said to this day, 'On the mount of the Lord it shall be provided.'

The angel of the Lord called to Abraham a second time from heaven, and said, 'By myself I have sworn, says the Lord: Because you have done this, and have not withheld your son, your only son, I will indeed bless you, and I will make your offspring as numerous as the stars of heaven and as the sand that is on the seashore. And your offspring shall possess the gate of their enemies, and by your offspring shall all the nations of the earth gain blessing for themselves, because you have obeyed my voice.'

Salm 148:1-6

[1-6]

Molwch yr ARGLWYDD. Molwch yr ARGLWYDD o'r nefoedd, molwch ef yn yr uchelderau. Molwch ef, ei holl angylion; molwch ef, ei holl luoedd.

Molwch ef, haul a lleuad; molwch ef, yr holl sêr disglair. Molwch ef, nef y nefoedd, a'r dyfroedd sydd uwch y nefoedd.

Bydded iddynt foli enw'r ARGLWYDD, oherwydd ef a orchmynnodd, a chrewyd hwy; fe'u gwnaeth yn sicr fyth bythoedd; rhoes iddynt ddeddf nas torrir.

[7-14]

Molwch yr ARGLWYDD o'r ddaear, chwi ddreigiau a'r holl ddyfnderau, tân a chenllysg, eira a mwg, y gwynt stormus sy'n ufudd i'w air; y mynyddoedd a'r holl fryniau, y coed ffrwythau a'r holl gedrwydd; anifeiliaid gwyllt a'r holl rai dof, ymlusgiaid ac adar hedegog; brenhinoedd y ddaear a'r holl bobloedd,

tywysogion a holl farnwyr y ddaear; gwŷr ifainc a gwryfon, hynafgwyr a llanciau hefyd.

Bydded iddynt foli enw'r ARGLWYDD, oherwydd ei enw ef yn unig sydd ddyrchafedig, ac y mae ei ogoniant ef uwchlaw daear a nefoedd.

Y mae wedi dyrchafu corn ei bobl, ac ef yw moliant ei holl ffyddloniaid, pobl Israel, sy'n agos ato. Molwch yr ARGLWYDD.

Psalm 148 1-6

[1-6]

Praise the Lord! Praise the Lord from the heavens; praise him in the heights!

Praise him, all his angels; praise him, all his host!

Praise him, sun and moon; praise him, all you shining stars! Praise him, you highest heavens, and you waters above the heavens!

Let them praise the name of the Lord, for he commanded and they were created. He established them for ever and ever; he fixed their bounds, which cannot be passed.

[7-14]

Praise the Lord from the earth, you sea monsters and all deeps, fire and hail, snow and frost, stormy wind fulfilling his command!

Mountains and all hills, fruit trees and all cedars! Wild animals and all cattle, creeping things and flying birds!

Kings of the earth and all peoples, princes and all rulers of the earth! Young men and women alike, old and young together!

Let them praise the name of the Lord, for his name alone is exalted; his glory is above earth and heaven. He has raised up a horn for his people, praise for all his faithful, for the people of Israel who are close to him. Praise the Lord!

Actau 11. 1-18

Clywodd yr apostolion a'r credinwyr yn Jwdea fod y Cenhedloedd hefyd wedi derbyn Gair Duw. Pan ddaeth Pedr i fyny i Jerwsalem, dechreuodd plaid yr enwaediad ddadlau ag ef, a dweud, "Buost yn ymweld â dynion dienwaededig, ac yn cydfwyta â hwy." Dechreuodd Pedr adrodd yr hanes wrthynt yn ei drefn. "Yr oeddwn i," meddai, "yn nhref Jopa yn gweddïo, a gwelais mewn llesmair weledigaeth: yr oedd rhywbeth fel hwyl fawr yn disgyn ac yn cael ei gollwng o'r nef wrth bedair congl, a daeth hyd ataf. Syllais i mewn iddi a cheisio amgyffred; gwelais anifeiliaid y ddaear a'r bwystfilod a'r ymlusgiaid ac adar y awyr. A chlywais lais yn dweud wrthyf, 'Cod, Pedr, lladd a bwyta.' Ond dywedais, 'Na, na, Arglwydd; nid aeth dim halogedig neu aflan erioed i'm genau.' Atebodd llais o'r nef eilwaith, 'Yr hyn y mae Duw wedi ei lanhau, paid ti â'i alw'n halogedig.' Digwyddodd hyn deirgwaith, ac yna tynnwyd y cyfan i fyny yn ôl i'r nef. Ac yn union dyma dri dyn yn dod a sefyll wrth y tŷ lle'r oeddem, wedi eu hanfon ataf o Gesarea. A dywedodd yr Ysbryd

wrthyf am fynd gyda hwy heb amau dim. Daeth y chwe brawd hyn gyda mi, ac aethom i mewn i dŷ'r dyn hwnnw. Mynegodd yntau i ni fel yr oedd wedi gweld yr angel yn sefyll yn ei dŷ ac yn dweud, 'Anfon i Jopa i gyrchu Simon, a gyfenwir Pedr; fe lefara ef eiriau wrthyt, a thrwyddyt hwy achubir di a'th holl deulu.' Ac nid cynt y dechreuais lefaru nag y syrthiodd yr Ysbryd Glân arnynt hwy fel yr oedd wedi syrthio arnom ninnau ar y cyntaf. Cofiais air yr Arglwydd, fel yr oedd wedi dweud, 'Â dŵr y bedyddiodd Ioan, ond fe'ch bedyddir chwi â'r Ysbryd Glân.' Os rhoddodd Duw, ynteu, yr un rhodd iddynt hwy ag i ninnau pan gredasom yn yr Arglwydd Iesu Grist, pwy oeddwn i i allu rhwystro Duw?" Ac wedi iddynt glywed hyn, fe dawsant, a gogoneddu Duw gan ddweud, "Felly rhoddodd Duw i'r Cenhedloedd hefyd yr edifeirwch a rydd fywyd."

Acts 11. 1-18

Now the apostles and the believers who were in Judea heard that the Gentiles had also accepted the word of God. So when Peter went up to Jerusalem, the circumcised believers criticized him, saying, 'Why did you go to uncircumcised men and eat with them?' Then Peter began to explain it to them, step by step, saying, 'I was in the city of Joppa praying, and in a trance I saw a vision. There was something like a large sheet coming down from heaven, being lowered by its four corners; and it came close to me. As I looked at it closely I saw four-footed animals, beasts of prey, reptiles, and birds of the air. I also heard a voice saying to me, "Get up, Peter; kill and eat." But I replied, "By no means, Lord; for nothing profane or unclean has ever entered my mouth." But a second time the voice answered from heaven, "What God has made clean, you must not call profane." This happened three times; then everything was pulled up again to heaven. At that very moment three men, sent to me from Caesarea, arrived at the house where we were. The Spirit told me to go with them and not to make a distinction between them and us. These six brothers also accompanied me, and we entered the man's house. He told us how he had seen the angel standing in his house and saying, "Send to Joppa and bring Simon, who is called Peter; he will give you a message by which you and your entire household will be saved." And as I began to speak, the Holy Spirit fell upon them just as it had upon us at the beginning. And I remembered the word of the Lord, how he had said, "John baptized with water, but you will be baptized with the Holy Spirit." If then God gave them the same gift that he gave us when we believed in the Lord Jesus Christ, who was I that I could hinder God?' When they heard this, they were silenced. And they praised God, saying, "Then God has given even to the Gentiles the repentance that leads to life.'

Ioan 13. 31-35

Ar ôl i Jwdas fynd allan dywedodd Iesu, "Yn awr y mae Mab y Dyn wedi ei ogoneddu, a Duw wedi ei ogoneddu ynddo ef. Ac os yw Duw wedi ei ogoneddu ynddo ef, bydd Duw yntau yn ei ogoneddu ef ynddo'i hun, ac yn ei ogoneddu ar unwaith. Fy mhlant, am ychydig amser eto y byddaf gyda chwi; fe chwiliwch amdanaf, a'r hyn a ddywedais wrth yr Iddewon, yr wyf yn awr yn ei ddweud wrthych chwi hefyd, 'Ni allwch chwi ddod lle'r wyf fi'n mynd.' Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chwithau i garu'ch gilydd. Os bydd gennych gariad tuag at eich gilydd, wrth hynny bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych."

John 13. 31-35

When he had gone out, Jesus said, 'Now the Son of Man has been glorified, and God has been glorified in him. If God has been glorified in him, God will also glorify him in himself and will glorify him at once. Little children, I am with you only a little longer. You will look for me; and as I said to the Jews so now I say to you, "Where I am going, you cannot come." I give you a new commandment, that you love one another. Just as I have loved you, you also should love one another. By this everyone will know that you are my disciples, if you have love for one another.'

Ôl Gymun 70

Dragwyddol Dduw,
dy Fab Iesu Grist
yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd,
caniatâ i ni gerdded yn ei ffordd,
i lawenhau yn ei wirionedd
a chyfranogi o'i fywyd atgyfodedig;
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth.

Post Communion Prayer 70

Eternal God,
whose Son Jesus Christ is the way, the truth, and the life:
grant us to walk in his way,
to rejoice in his truth,
and to share his risen life;
who is alive and reigns, now and for ever.